

## ❖ NADOLIG PAGANAIDD?

Dywedir bod y Nadolig wedi colli ei neges Gristnogol i'r mwyafrif o bobl; daeth yn ŵyl seciwlar a materol. Mae cardiau Nadolig a nwyddau eraill wedi bod ar werth yn y siopau er mis Mehefin, ac mae'r tymor ei hun yn esgus dros or-fwyta a meddwi.

Ond bu gan y Nadolig gysylltiadau paganaidd ym Mhrydain o'r cychwyn cyntaf. Dathlai'r Celtiaid ddechrau'r gaeaf yng ngŵyl Samhain. Cynhwysai'r defodau aberth dynol. Yn wreiddiol rhoddai'r hen frenin neu arweinydd y llwyth ei fywyd wrth i'w allu leihau er mwyn i ddyn iau, cryfach ofalu am y bobl. Yn ddiweddarach dewisid aelod arall o'r llwyth, neu hyd yn oed un o'i gaethweision, yn aberth yn ei le. Trwy fwrw coelbren y gwneid y dewis. Cynhelid gwledd o deisennod ceirch, a chymerai pawb ddarn o ddysgl seremonïol fawr. Gan ddilyn patrwm sy'n ein hatgoffa o stori'r Brenin Alfred a'r teisennod llosg, y gŵr a'i câi ei hun yn dal darn a losgwyd yn fwriadol a gâi ei aberthu. Mewn blynyddoedd diweddarach cymerwyd ei le gan anifail neu hyd yn oed ryw fath ar ddelw – arfer a barheir o hyd ar noson Guto Ffowc.

Gyda dyfodiad y Rhufeiniaid mabwysiadodd y Prydeinwyr ŵyl Satwrnalia, a gynhelid ar adeg heulsafiad y gaeaf. Gwledd wythnos o hyd oedd yr ŵyl hon, pan drowyd popeth wyneb i waered: gweinai meistri ar eu gweision a llaciwyd y cyfreithiau llym yn erbyn hapchwarae hyd yn oed. Duw amaethyddol oedd Sadwrn, y cysegrid yr ŵyl iddo, y credir iddo gael ei enwi o'r Lladin *satus*, sy'n golygu 'hau'. Y prif draddodiad a etifeddwyd gennym o'r ŵyl yw ein harfer o gyfnewid anrhegion ganol gaeaf. Hefyd etifeddwyd y gêm o guddio darnau arian yn y pwddin Nadolig gan y Rhufeiniaid, a ddefnyddiai ffyrdd tebyg o fwrw coelbren gyda bwyd i weld pwy fyddai'n frenin yr ŵyl neu'n 'Arglwydd Anhrefn', yn yr un modd yn union ag y cawsai'r aberth ei ddewis.

Am gyfnod yr oedd cwlt Mithras yn boblogaidd. Duw Persiaidd oedd Mithras (ystyr ei enw yw 'cyfamod'), a lamodd yn ei lawn dwf o greigiau ei fam ddaear yng nghwmni dau yn cario ffaglau, Cautes, a gynrychiolai'r gwanwyn a chodiad yr haul ac a ddaliai ei ffagl i fyny, a Cautopates, a ddaliai ei ffagl i lawr i gynrychioli machlud haul a'r hydref. Dim ond grŵp o fugeiliaid a fu'n dystion i'r digwyddiad gwyrthiol hwn, ond daeth yr ogof, fel ogof neu stabl Bethlehem lle gwelodd bugeiliaid eni gwyrthiol hefyd, yn rhan o ddefod canol gaeaf.

Troes yr Eingl-Sacsoniaid ran fawr o Brydain yn Lloegr trwy eu buddugoliaethau grymus dros y Celtiaid ar ddechrau'r chweched ganrif. Yn ystod y tri chan mlynedd nesaf, daeth llawer o'r Sacsoniaid yn swyddogol yn Gristnogion, ond siglwyd eu ffydd newydd, ansicr yn fuan gan luoedd o oresgynwyr o Lychlyn. Yna ailsefydlwyd yr hen dduw Tiwtonig Wotan, gyda'i ŵyl 'Yule' canol gaeaf, yn ffurf ofnadwy y duw Nordig Odin. Yn erbyn ei addolwyr ef yr ymdrechodd Alfred y Cristion yn y nawfed ganrif a phan sefydlwyd y Ddaenfro, i Odin y gwnâi'r bobl eu haberthau adeg heulsafiad y gaeaf. Disgynnai Odin i'r ddaear ar geffyl gwyn ar dymor sanctaidd Yule. Yn ei holl ddefodau cysylltir ef â cheffylau fel gyrrwr y cerbyd a dynnir gan Sleipnir cryf wythgoes, a hefyd fel derbynnydd ceffylau yn aberthau. Cymerir Sleipnir fel symbol o bedwar dyn yn cario elor, a dyna'r rheswm pam y mae'r cysylltiad â marwolaeth mor gryf. Ond ef hefyd oedd y march y gallai siaman ei farchogaeth rhwng bydoedd y byw a'r meirw. Fel swynwyr offeiriadol Asia a gogledd-ddwyrain Ewrop, gallai Odin newid ei siâp a chymryd ffurf aderyn ysglyfaethus, neu hedfan drwy'r awyr ar gefn ceffyl. Âi ei deithiau ag ef i fydoedd eraill ond teithiai'n gyson yn y byd hwn hefyd. Am y rheswm hwnnw, cysylltwyd Odin, fel y duw Rhufeinig a gyfatebai iddo, Mercher, â masnach ac, yn debyg iddo yntau, darlunir y duw Nordig weithiau mewn het ac iddi adenydd, er ei bod yn fwy tebyg i gwewll yn ei achos ef. Yr oedd ganddo hefyd farf hir, laes, ac o'r duw gerwin hwn y gwnaethom ninnau Siôn Corn.

Datblygiad ydyw o siamanau Siberia a gâi brofiadau dychmygol o hedfan trwy fwyta'r ffwng coch smotiog amanita'r pryfed, arfer yr oedd ceirw Llychlyn hefyd ynghlwm wrtho. Ymestynnai'r arfer mor bell â'r Lapdir ac mae'n sicr ei fod yn gyfarwydd i'r Llychlynwyr Nordig a ddaeth ag Odin i Loegr. Byddai ganddynt hefyd y syniad o'r siaman yn disgyn i'r tŷ trwy dwll yn y to, oherwydd roedd trigfannau'r gaeaf o dan ddaear yn Siberia. Mae gan ein Siôn Corn modern ni Sleipnir sydd wedi lluosogi'n dîm o geirw, tra bod arfer y duw o farnu gweithredoedd dynion wedi cael ei ladmeru i'r arfer haelionus o roi gwobr i blant da.

Yn Saesneg gelwir ef ‘Santa Claus’, o’r Iseldireg am Sant Nicolas. Esgob Myra yn y bedwaredd ganrif oedd Nicolas, a roddodd, yn ôl yr hanes, dri chwdyn o aur i deulu tlawd i’w defnyddio yn waddol i’r merched i’w harbed rhag puteinio. (Gyda llaw, dyna darddiad y tair pêl ar yr arwydd y tu allan i siop wystlo.) Yn yr Almaen dethlir gŵyl Sant Nicolas ar y chweched o Ragfyr o hyd, yn hollol ar wahân i’r Nadolig.

Erbyn canol y bedwaredd ganrif, penderfynasid y câi genedigaeth Crist ei ddathlu’n swyddogol ar y pumed ar hugain o Ragfyr mewn ymdrech i ddisodli defodau paganaidd heulsafiad y gaeaf, ond gallwn weld bod llawer o elfennau wedi goroesi hyd heddiw, er bod ganddynt ar y cyfan ystyron newydd.

**Marcus Wells**